# Dewi B. Francis yn dwyn i gof Y 'Thomas Charles'

Peth anghyffredin, os nad unigryw, yw enwi llong ar ôl gweinidog yr Efengyl. Bûm yn chwilio sawl rhestr llongau ond, hyd yn hyn, heb gael hyd i'r un, heblaw y *Thomas Charles*. Ia, ar ôl yr enwog Thomas Charles o'r Bala yr enwyd hon, ac yr oedd 'addurn llong' *(figurehead)* o bregethwr arni a'i ddwrn yn ymestyn i fyny, yn union fel petai yn ei deud hi o'r pulpud. Dyma beth sydd gan Aled Eames amdani yn ei lyfr ardderchog *Porthmadog Ships*:

*Thomas Charles-: Robert Hughes, son of Lewis Hughes, the tailor at P.M. Lloyd's Register 1875/76: Schooner. 82 tons. 69.5/20.0/10.7. Built P.M. 1868 by Griffiths. Owned by Hughes & Co. H. Hughes, Master.*

Dyna i chwi esgyrn sychion am y llong fach yma o Borthmadog. Fy nhad yng nghyfraith oedd Capten William Henry Hughes D.S.C Caergybi, mab H.Hughes sef Capten Harry Hughes, ac ŵyr i Lewis Hughes y Teiliwr a ddaeth yn berchennog tai a llongau yn oes aur y porthladd. Cefais straeon gan Capten W.H. a oedd yn rhoi cig a chnawd ar yr esgyrn sychion.

Fe welwch mai Robert Hughes oedd y capten cyntaf ar y *Thomas Charles*. Roedd gan Lewis Hughes dri mab a dwy ferch. Robert oedd y mab hynaf, yna Hugh, a Harri, sef tad fy nhad yng nghyfraith, oedd yr ieuengaf, Nid oedd yr un ohonynt ag awydd mynd yn deiliwr na'n siopwr – fel eu tad. *Tailor and Draper* sydd wrth enw Lewis Hughes yn y Gazette. Hyd at y cyfnod yma roedd Lewis Hughes wedi prynu tai fel buddsoddiad a bu ganddo oddeutu saith neu wyth ohonynt. Trwy siarad gyda'i gwsmeriaid deallodd fod cyfranddalwyr mewn llongau yn cael elw da, ac yn ogystal, fod hyn yn rhoi gwell cyfle i'w meibion gael gwaith ar y llong. Roedd siâr neu gyfran mewn llong yn cael ei gwerthu yn rhannau o 1/64 o'r gost gyflawn. Prynodd Lewis Hughes y llong gyfan sef 64/64. a rhoi ei fab hynaf Robert, oedd tua 17 oed yn feistr arni o dan ofal Robert Lewis Aberdyfi (Meistr Hwylio.) Wrth hwylio fel hyn yr oedd Robert yn dysgu'i grefft, hyd nes iddo, ymhen amser, basio arholiadau fel capten. A dyna yn union a wnaeth.

Roedd Robert Lewis yn llongwr profiadol ac yn athro ardderchog. Robert Hughes yntau yn awchus i ddysgu, ac yn llongwr greddfol. Yr unig beth oedd yn ei boeni oedd yr addurn y *'figurehead'* o Thomas Charles ar y bow. Byddai criwiau llongau eraill yn ei brofocio bob cyfle a gaent, nes ei yrru bron i gwffio. Gofynnodd i'w dad a gâi ei dynnu ymaith, Ond na, roedd ei fam yn gwrthod ystyried y fath driniaeth i bregethwr mor enwog. Dros amser medrodd Bob ryddhau yr addurn gymaint nes iddo symud o'i le mewn storm. Gorchmynnodd Robert Lewis iddo gael ei dynnu ymaith a'i storio yn *'Lasareet'* sef howld yn y bow lle cedwid rhaffau a hwyliau sbâr. Gwaith anodd oedd ei glymu o'r ffordd yn y *Lasareet* a bu rhaid ei rwymo i hongian o'r dec uwchben.

Nid oedd ei fam yn hapus fod yr addurn wedi ei dynnu, ond wedi i Robert Lewis dystio mai mewn storm y daeth yn rhydd ac mai ef oedd yn gyfrifol am ei dynnu oherwydd perygl i'r llong, fe dderbyniodd y sefyllfa.

Yn y cyfamser yr oedd Hugh, y brawd canol, wedi ymuno â'r llong ac yn dysgu ei grefft o dan yr un Robert Lewis. Bu'r *Thomas Charles* yn brysur iawn yn cario llechi o Borthmadog i borthladdoedd Ewrop a hyd at Ogledd Affrig. Yna cario gwahanol nwyddau o'r porthladdoedd pell yn ôl i Borthmadog a sawl porthladd arall. Yna daeth y mab ieuengaf, Harri, yn ddigon hen i ymuno â'r llong, a bu raid i Hugh chwilio am long arall – canys dyna'r drefn.

Am gyfnod, felly, bu Capten Robert Hughes yn hwylio gyda chriw oedd yn cynnwys ei frawd bach; y tri yn dysgu y grefft o hwylio o dan ofal yr un Robert Lewis o Aberdyfi.

Ond bu trychineb! Yr oeddynt yn Rotterdam yn dadlwytho llechi pan lithrodd Capten Robert Hughes oddi ar y *'gangplank'* i'r harbwr a boddi. Ymhen cyfnod daeth ei gorff i'r wyneb yn union wrth ochr ei frawd Harri, oedd wrthi'n spydu'r cwch (gwagio'r dŵr) wrth starn y llong. Fe'i claddwyd yn Rotterdam.

Daeth y *Thomos Charles* yn ôl i Borthmadog gyda'r newyddion drwg, a bu tristwch mawr yn yr ardal; y fam yn arbennig o drist fod Bob wedi ei gladdu



*Harri a Jane Hughes ar eu mis mel.*

mewn gwlad estron. Penderfynwyd gwneud trefniadau i ddod ag ef adre i Borthmadog. Roedd y *Thomas Charles* i fynd â llwyth o lechi i'r Eidal a threfnodd ei fam eu bod yn cael darn o farmor o Carrera fel carreg fedd i Bob. Oddi yno i Rotterdam a chodi corff Bob a'i ddwyn adre. Fe wnaed popeth yn ôl dymuniad ei fam. Codwyd y corff a'i roi yn y *Lasareet* a hwylio am adre.

Ar y daith cododd y gwynt, a gwelai Robert Lewis fod mwy i ddod, felly anfonodd longwr i'r *Lasareet* i gael *'double reef fairing'* – sef rhaff ystwyth denau roeddynt yn ei defnyddio i glymu'r hwyliau yn dynn rhag i wynt mawr eu rhwygo. Bu'r llongwr mor hir nes gorfod anfon llongwr arall i weld beth oedd yn bod. Cafwyd hyd iddo mewn llewyg ar lawr y *Lasareet* a'i lantern wedi troi, ac wedi cychwyn tân. Wedi iddo ddod ato'i hun eglurodd y llongwr ei fod yn ofergoelus, ac yn ofnus wrth fynd heibio corff ei gapten. Yna, edrychodd i fyny a gweld 'Thomos Charles' yn rhythu arno. Dim rhyfedd iddo lewygu! Cyrhaeddwyd Porthmadog yn saff, a chladdwyd Bob yn y fynwent leol gyda charreg fedd o farmor arbennig o Carrera, yr unig un mewn llu o gerrig o lechfaen.

Beth ddigwyddodd i'r 'Thomas Charles'? Wn i ddim. Mae'n wir i'r llong gael ei gwerthu o fewn dim, ac i Lewis Hughes brynu 64/64th o sgwner 3 mast yr 'Hilda' yn ei



*Capten William Henry Hughes D.S.C.*

lle dros dro, hyd nes i'r *Edward Seymour*, oedd yn cael ei hadeiladu gan Hugh Williams a David Richards, Portmadog, fod yn barod. Y tro yma, mae Aled Eames yn cofnodi fel hyn:

*'Edward Seymour' 187tons 100.9/24,4/ 13.2 Built PM 1876 by Griffith Williams. Owners: Lewis Hughes, Draper, 44/64th. Harry Hughes. MasterMariner, 20/64th*

Nid gwas i'w dad ydyw bellach ond partner – yn berchen trydedd ran o'r *Edward Seymour*.

Daeth y llong hon gyda'i chapten, Harri Hughes, yn enwog iawn yn eu hamser. Unwaith, fe hwyliodd o Borthmadog i New York ac oddi yno i Cape Town, Durban a Calcutta cyn dychwelyd i Borthmadog. Cofiwch mai llong hwyliau, tua 100 troedfedd o hyd ydoedd. Nid oedd porthladd Durban wedi ei gwblhau ar y pryd, a chafodd y Capten Harri Hughes gynnig swydd fel y Meistr Harbwr cyntaf yno. Fe hwyliodd o Halifax, Nova Scotia i Borthmadog, gyda llwyth o goed ar y dec, mewn 19 diwrnod a oedd yn record.

Mae llu o straeon am Harri Hughes, rhai ohonynt gan Aled Eames yn ei lyfrau. Hefyd, mae cyfeiriad ato yn *Immortal Sails*. Cafodd wyth o blant – pump yn fechgyn – gyda phedwar ohonynt wedi ei ddilyn i'r môr, a thri ohonynt wedi dod yn gapteiniaid enwog sef: Capt. William Henry Hughes D.S.C, Capt. Jesse Hughes a Capt. Arthur Hughes (*Mentioned in despatches*).

I ddod yn ôl at y *Thomas Charles*, clywais stori gan un o ferched Harry Hughes fod y llong wedi dod yn ôl i Borthmadog wedi cael addurn newydd, sef milwr â dryll yn ei law, a bod y plant yn gweiddi, 'Mae Thomas Charles wedi cael gwn.' Tybed beth a ddigwyddodd i'r gwreiddiol?

Trist yw cofnodi i ail fab Lewis Hughes, sef Hugh, gael ei foddi pan suddodd y *Catherine Richards*; gan golli'r cyfan o'r criw yn Brandon Bay, 30 Rhagfyr 1892. Pris uchel oedd colli dau fab allan o dri i'r môr. Ond efallai fod hynny yn beth cyffredin yn y cyfnod caled yma yn hanes Porthmadog.


## Ar Werth

*Llafar Gwlad* (set gyflawn)
*Y Genhinen* 1951–1971
*Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd* (set gyflawn)
Cysyllter ar (01559) 384839